Nicola Roberts
UCD Sir Ddinbych
Ysgol Plas Cefndy
Cefndy Road
Y Rhyl
Sir Ddinbych
LL18 2HG

01/07/2025

Annwyl Nicola Roberts

**Ymweliad Interim:** Mehefin 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr, dan arweiniad Hayley Smith AEF, ag UCD Sir Ddinbych yn ddiweddar i ystyried sut mae'r UCD wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad o'i harolygiad craidd ym mis Chwefror 2019. Hefyd, gwerthusom y cynnydd y mae'r UCD yn ei wneud o ran 'ymwreiddio Cwricwlwm i Gymru a datblygu prosesau asesu', sef un o flaenoriaethau datblygu cyfredol yr ysgol.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i arsylwi addysgu a dysgu, edrych ar waith disgyblion, craffu ar dystiolaeth a siarad â disgyblion, staff ac arweinwyr.

## Sylwadau cyffredinol

Mae arweinwyr a staff yn yr ysgol wedi gweithio'n effeithiol i fynd i'r afael â'r argymhellion a'r blaenoriaethau. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau presennol yr ysgol a'i meysydd i'w gwella ac mae ganddynt gynlluniau addas ar waith i barhau i symud yr ysgol ymlaen.

Mae rhaglen gynhwysfawr, drefnus o weithgarwch hunanwerthuso sy'n cynnwys yr holl staff. Mae arweinwyr yn monitro darpariaeth yr UCD yn gadarn trwy ystod o weithgareddau pwrpasol sydd wedi'u cynllunio'n dda. Mae blaenoriaethau gwella yn berthnasol ac yn adeiladu'n dda ar ganfyddiadau hunanwerthuso.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

Mae bron pob un o'r staff ar draws yr UCD yn defnyddio arferion cyson sydd wedi'u hymwreiddio'n dda. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd â'u gweithgareddau dysgu yn gyflym.

Mae'r berthynas waith gadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn gryfder nodedig yn yr UCD. Ar ben hynny, mae diwylliant cryf o ofal sy'n galluogi disgyblion i deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Yn ystod yr ymweliad, roedd ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn rhagorol ar draws pob safle.

Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn y meysydd ffocws.

## Ffocws yr ymweliad

### Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, ar gyfer disgyblion o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg

Ers yr arolygiad craidd yn 2019, mae arweinwyr wedi recriwtio staff newydd yn llwyddiannus i gyflwyno addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Er bod angen y ddarpariaeth hon ar ychydig iawn o ddisgyblion, mae arweinwyr yn sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys achrediad yn y Gymraeg, ar gael i bob disgybl. O ganlyniad i'r ddarpariaeth well ar gyfer y Gymraeg, mae'r UCD wedi cryfhau'r cymorth i ddisgyblion yn sylweddol wrth iddynt ddychwelyd i ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg.

Mae arweinwyr yn yr UCD yn darparu ystod o ddysgu proffesiynol buddiol i staff i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i staff fynd ar gyrsiau preswyl, darparu'r gallu i fanteisio ar hyfforddiant ar-lein a chefnogi staff trwy raglen mentora cymheiriaid fewnol. Mae arweinydd y Gymraeg hefyd wedi darparu ymadroddion, geirfa a gemau Cymraeg defnyddiol i staff eu defnyddio yn eu gwersi. O ganlyniad, mae llawer o staff ar draws yr UCD yn datblygu eu hyder a'u medrau wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg llafar yn addas. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn cyfrif yn Gymraeg yn ystod sesiynau *'Wake and Shake'* ac yn ymateb yn frwdfrydig i gyfarchion a chyfarwyddiadau Cymraeg. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn dechrau defnyddio geirfa allweddol yn y Gymraeg yn ystod sesiynau gwyddoniaeth. Pan fo'n briodol gwneud hynny, mae ychydig o ddisgyblion hŷn yn ennill achrediadau Cymraeg.

Mae arweinwyr wedi gwella'r amgylchedd dysgu, sydd bellach yn cynnwys ystod o arddangosiadau o ansawdd uchel sy'n hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Trwy arlwy buddiol y cwricwlwm, mae'r UCD yn cynnig cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau datblygu ymdeimlad o gynefin a'u gwybodaeth am nodweddion a hanes eu hardal leol. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn ymweld â Chastell Rhuddlan. Mae disgyblion hŷn yn ymchwilio ac yn ysgrifennu am 'saith rhyfeddod Cymru', gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, Traphont Ddŵr Pontcysyllte a Phistyll Rhaeadr. Mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am artistiaid Cymreig, fel Syr Kyffin Williams a Martyn Evans. Mae disgyblion yn ymateb yn frwdfrydig i ddysgu am gerddoriaeth Gymraeg trwy astudio artistiaid rap Cymreig neu ddysgu am Dafydd Iwan. Mae staff yn defnyddio digwyddiadau arbennig yn dda i ddisgyblion ddathlu'r Gymraeg a diwylliant Cymru, er enghraifft trwy'r Eisteddfod, Diwrnod Shwmae Su'mae a Dydd Miwsig Cymru.

## Camau nesaf

Efallai yr hoffai'r UCD ystyried cryfhau cysondeb arfer mewn addysgu'r Gymraeg a diwylliant Cymru ar draws pob safle.

### Ymwreiddio Cwricwlwm i Gymru a datblygu prosesau asesu

Mae arweinwyr yn yr UCD wedi defnyddio dull strategol a phwyllog o ddatblygu'r cwricwlwm a threfniadau asesu ar gyfer pob disgybl yn ystod eu cyfnod yn yr UCD. Maent yn mynegi gweledigaeth glir ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm. Maent yn cyfleu disgwyliadau uchel ac mae ganddynt ddyheadau ar gyfer pob un o'r disgyblion. Mae'r cwricwlwm yn eang, yn gytbwys ac yn bwrpasol, ac mae iddo sail resymegol glir. Mae'r UCD yn darparu ystod o brofiadau go iawn buddiol trwy ddull thematig sefydledig. Mae ffocws clir ar ddatblygu medrau cymdeithasol a medrau bywyd disgyblion. Mae arweinwyr wedi cynllunio cwricwlwm yn ofalus i fodloni anghenion disgyblion yn yr UCD, sydd wedi'u greu o amgylch cadw disgyblion yn ddiogel a datblygu eu hiechyd a lles.

At ei gilydd, mae ymagwedd gynlluniedig tuag at gyflwyno'r cwricwlwm, sy'n targedu ac yn cefnogi anghenion penodol disgyblion ar draws safleoedd yr UCD yn dda. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion wneud cynnydd wrth ddatblygu eu medrau i'w cynorthwyo naill ai i ddychwelyd i ysgol brif ffrwd neu drosglwyddo i'r coleg.

Gwna gyfleoedd dysgu proffesiynol gyfraniad pwysig i ddatblygiad parhaus yr UCD, sy'n cynnal gweithlu tra hyfforddedig. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi sicrhau ffocws â blaenoriaeth uchel ar ddulliau ymarfer sy'n ystyriol o drawma. O ganlyniad, mae bron pob un o'r staff yn cymhwyso'r dull hwn i'w harfer yn gyson ar draws yr UCD.

Mae gan arweinwyr brosesau hunanwerthuso sefydledig ar waith. Caiff staff eu cynnwys yn llawn ym mhob agwedd ar fonitro ac adolygu ar draws y safleoedd. Mae'r holl staff yn cyfrannu at ddatblygu'r cwricwlwm a modelau a dulliau asesu. Er enghraifft, mae'r broses fentora rhwng cymheiriaid yn datblygu dull cryf o fonitro ar y cyd i gefnogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu, cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm a rhannu arfer effeithiol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu systemau olrhain cadarn yn yr UCD i fonitro a gwerthuso cynnydd disgyblion. Mae prosesau asesu yn bwrpasol ac yn ystyrlon. Mae staff ar draws yr UCD yn asesu cynnydd disgyblion yn effeithiol o'u mannau cychwyn ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus i lywio'r camau nesaf mewn dysgu. Mae datblygu'r portffolios asesu dysgwyr dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn darparu system effeithiol i arweinwyr a staff olrhain cynnydd disgyblion a mesur eu cynnydd yn effeithiol. Mae staff yn defnyddio data yn effeithiol i greu diweddariadau bob hanner tymor ar y cynnydd mae disgyblion yn ei wneud. O ganlyniad, mae prosesau effeithiol ar waith i nodi'r cynnydd mae disgyblion yn ei wneud a mynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella.

## Camau nesaf

Mireinio'r portffolios asesu dysgwyr i gynnwys disgyblion sy'n dod i'r UCD am gyfnod byr.

Hoffai'r tîm ddiolch i staff a disgyblion yr UCD am eu cydweithrediad â'r ymweliad hwn ac am y croeso cynnes a gawsant.

Mae adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr UCD a rhagor o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim i'w gweld ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6631100

Yn gywir

**Dyfrig Ellis**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol